COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30 y.h. NOS IAU, MEHEFIN 7FED YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

Cof; - 0106/18 Presennol

……..

Y Maer, Cyng. E. Roberts

Dirprwy Faer, Cyng. M. Plwm

Cyng. D. Owen Jones, , A. Williams, , E. Hywel, , E. Griffith, E. Hughes, M. Sol Owen

Cof; - 0206/18 Ymddiheuriadau

……..

Cyng. Parch I. Gruffydd, Cyng. M. Parry, Ff. Adams, H. Underwood, D. Bullard (Triniaeth), I. Edgar, H Rees Williams

Cof; - 0306/18 Datgan Diddordeb

……..

Ni fu i unrhyw aelod ddatgan diddordeb mewn unrhyw fater a oedd i'w drafod yn y cyfarfod.

Cof; - 0406/18 Gair gan y Maer

……..

Fe fu i'r Maer ddatgan y bydd dogfen 'Gair gan y Maer' yn cael ei gyhoeddi yn fisol a'i gyrru ymlaen i holl aelodau'r Cyngor. Yn ychwanegol i hun fe ddiolchodd y Maer i bob un a fynychodd Urddo'r Maer a'i ddatgan yn noson lwyddiannus ac urddasol. Fe nodir fod Sul y Maer i'w gynnal ar y 1af o Orffennaf, 2018 ac i bob un oedd am fynychu ymgynnull yn y Festri am 9:45 yb.

Cof; - 0506/18 Aelodau'r cyhoedd yn bresenonol

……..

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol

Cof; - 0606/18 Materion Cyfansoddiadol a Staff

……..

a) Er mwyn galluogi i'r Cyngor sicrhau fod cyfrifoldebau'r Clerc yn cael eu cynnal fe drafodwyd posibilrwydd o drosglwyddo'r hawl i weinyddu ar ran Clerc y Dref i'r Cyng. Michael Sol Owen a'r Cyng. Elin Hywel am gyfnod o fis hyd gyfarfod llawn y Cyngor yn Orffennaf 2018.

PENDERFYNIAD: I drosglwyddo'r hawl i weinyddu ar ran Clerc y Dref i'r Cyng. Michael Sol Owen a'r Cyng. Elin Hywel am gyfnod o fis hyd gyfarfod llawn y Cyngor yn Orffennaf 2018.

b) Diweddariad, Clerc y Dref - Gweler gair y Maer

PENDERFYNIAD: Gohirio'r penderfyniad ar ddewis derbyn ei ymddiswyddiad i gyfarfod Gorffennaf, 2018.

c) Trafodwyd ffordd ymlaen i benderfynu ar sut i gynnal cyfrifoldebau Clerc y Dref yn y tymor hir.

PENDERFYNIAD: I gynnal cyfarfod is-bwyllgor yn syth wedi cyfarfod llawn Y Cyngor.

Cof; - 0706/18 Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Mai, 21018

……..

Cadarnhawyd cofnodion mis Mai fel rhai cywir a llofnodwyd hwy yn unol â'r gyfraith.

Nodir fod gofyn atodi i'r cofnodion drafodaeth y Cyfarfod Blynyddol.

Cyng. E Hughes yn cynnig, oll yn eilio.

Cof; - 0806/18 Materion yn codi o'r cofnodio trwy ohebiaeth

……..

Nid oedd dim mater wedi ei godi o'r cofnodion drwy ohebiaeth.

Cof; - 0906/18 Cynllunio

……..

a) C18/0389/45/AM – Tir Ysgubor Wen

PENDERFYNIAD: Argymell caniatáu

b) C18/0430/45/LL – Shefield House, 2 Ffordd Caerdydd Isaf

PENDERFYNIAD: Argymell caniatáu

c) C18/0386/45/HY – The Conservative Club, Y Maes

PENDERFYNIAD: Argymell caniatáu

d) C18/0419/45/LL – Gimlet Rock Caravan Park

Cof; - 1006/18 Ceidwad y Prysgyll

……..

Nodir fod trafodaeth wedi ei gynnal ag Ysgol Glan Y Môr a'u bod yn hapus i gytuno fod dau ddisgybl yn mynychu digwyddiadau sawl gwaith y flwyddyn i ymgymryd â rôl Ceidwad y Prysgyll.

PENDERFYNIAD: Fod y Maer am gysylltu â'r ysgol ac ymholi yn bellach.

Cof; - 1106/18 Y Tram

……..

PENDERFYNIAD: Cytuno i'r amcan bris am beintio o £1,500.00. Fod angen gofyn am gopïau o'r dogfennau yswiriant gan Blas Glyn y Weddw. I drafod y gorchudd mewn mwy o fanylder.

Cof; - 1206/18 Dyfodol Clwb Ieuenctid Pwllheli

……..

PENDERFYNIAD: Rhaglen mis nesaf

Cof; - 1306/18 Mynwent Dyneio – diffyg cynnal a chadw

……..

PENDERFYNIAD: Rhaglen mis nesaf

Cof; - 1406/18 Penodi Dirprwy Faer, Cyng. M Plwm fel aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru

……..

Aelodaeth o 4 mlynedd. Fe nodir pwysigrwydd cael llais ar y Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn benodol er mwyn sicrhau fod materion o bwys i Ysbyty Bryn Beryl yn cael eu codi yn ogystal ag unrhyw fater arall yn ymwneud a'r Dref. Fe fu i'r Cyng. Mike Sol Owen longyfarch y Dirprwy Faer a nodi fod gofyn edrych ar ddefnydd yr hen 'workhouse' ym Mhwllheli.

Cof; - 1506/18 Materion a ddygwyd ymlaen

……..

a) Llinell ar ffordd Lon Dywod a Stryd Fawr

PENDERFYNIAD: Rhaglen mis nesaf

b) Yr Hen Durnstille

PENDERFYNIAD: Rhaglen mis nesaf

c) Marchnad Sul Pwllheli – Aros am ymateb pellach gan Gyngor Gwynedd.

PENDERFYNIAD: Rhaglen mis nesaf

Cof; - 1606/18 Ymgynghori Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio; Cyflusterau a Llety I Dwristiaid, Cymysgedd Tai

……..

Nodir ei fod ar gael er gwybodaeth ac I sylw'r Cynghorwyr.

Cof; - 1706/18 Derbyniadau

……..

PENDERFYNIAD: Derbyn

Cof; - 1905/18 Taliadau

……..

PENDERFYNIAD: Derbyn

FE RODDWYD RHEOLAU SEFYDLOG O'R NEILLDU YMA ER MWYN CYNNWYS Y CANLYNOL:

Cof; - 2006/18 Ychwanegiad - Cofnodi Cyflogau a'u datgelu I'r Cyngor

……..

A oes angen cynnwys taliadau cyflog yma yn y taliadau.

PENDERFYNIAD: Holi am arweiniad ar y mater hwn i gadw gydau rheolau newydd GDPR

Cof; - 2106/18 Ychwanegiad – Gwaith ar un o dai stryd Min-y-Mor

……..

Fe fu i'r Cyng. E Griffith godi gwaith sydd yn barod wedi ei wneud ar un o dai ar stryd Min y Môr a'r ffaith eu bod wedi newid edrychiad y tu mewn ffordd nad oedd yn cadw a gweddill y stryd. Fe drafodwyd y posibilrwydd fod hun yn gam i adeiladu ar flaen yr adeilad.

PENDERFYNIAD: Ysgrifennu i fynegi anhapusrwydd y Cyngor Sir hefo'r gwaith sydd wedi ei ymgymryd ar flaen yr adeilad.

Cof; - 2206/18 Ychwanegiad – Llwybrau coed i'r traeth

……..

Nodir fod cyflwr y llwybrau hun yn fater o bwys. Fod nifer o lwybrau yn diflannu o dan dywod yn symud ar y traeth. Nodir hefyd fod Bwrdd Gwybodaeth traeth West End prin i weld oherwydd y tyfiant a'r tywod.

PENDERFYNIAD: Gyrru gohebiaeth i'r adran Forwrol yng Nghyngor Gwynedd yn nodi pryderon y Cyngor Tref ac yn gofyn am eglurdeb o gyfrifoldebau'r Cyngor Sir os byddai un o'r cyhoedd i frifo neu waeth oherwydd y llwybrau.

DYCHWELYD I REOLAU SEFYDLOG

Daeth y Cyngor i ben am 7:45 y.h

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref nos Iau, 5fed o Orffennaf, 2018

Bydd rhaglen y cyfarfod nesaf yn cau ar y 23ain o Fehefin, 2018